# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Y Ffin

Dyddiad yr arolygiad: 09/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Y Ffin yn gymuned deuluol sy'n darparu amgylchedd gynhwysol a gofalgar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos aeddfedrwydd a pharch tuag at ei gilydd. Mae trefniadau'r ysgol i hybu presenoldeb yn gadarn ac yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Gyda chymorth effeithiol y dirprwy a'r tîm arwain, mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn ogystal â medrau eraill. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn meithrin dysgwyr annibynnol a hyderus o oedran cynnar, gan ddefnyddio profiadau cyfoethog i feithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd. Mae'r cwricwlwm yn eang, perthnasol, ac wedi'i wreiddio mewn gweithgareddau dysgu ystyrlon sy'n adeiladu ar lawer o fedrau yn llwyddiannus. Mae dull ysgol gyfan o ddatblygu creadigrwydd yn gryf iawn, gyda gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso medrau ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae disgyblion yn dylanwadu ar ddylunio'r cwricwlwm yn effeithiol, ond cyfyng yw'r cyfleoedd i bwyllgorau disgyblion gyfrannu'n ehangach i fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Maent yn rhoi trefniadau llwyddiannus iawn ar waith i wella'r agweddau hynny. Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinwyr yn briodol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu

A2 Datblygu rôl pwyllgorau cynrychiolaeth disgyblion i gryfhau eu dylanwad ar waith yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2026